**ATODIAD 8**

**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

1. Mae’r gyllideb a amlinellir yma’n ceisio parhau i ddarparu’r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan fod ein cynnydd grant yn annigonol i gwrdd â’r galw am wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, mae’n rhaid gweithredu’r cynlluniau arbedion ‘hanesyddol’ sy’n Atodiad 3. Ar wahân i’r arbediad caffael Ynni cymeradwyodd y Cabinet yn ystod 2020, mae’r holl gynlluniau arfaethedig sydd i’w gwireddu yn 2021/22 eisoes wedi’u cymeradwyo gan y Cyngor llawn mewn blynyddoedd blaenorol.

2. Gydag arbedion, mae posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai’n effeithio’n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond mae’r adrannau sy’n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae’r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol mewn blynyddoedd blaenorol sy’n cefnogi’r penderfyniadau ariannol gerbron yma.

3. Ein nod oedd sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:
   - Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
   - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a’r rhai nad ydynt.
   - Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rhai nad ydynt.

   Wrth asesu, roeddem wedi ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau ein gallu.

4. Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau’r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol mewn blynyddoedd blaenorol, mae penaethiaid adrannau’r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro’r effaith yn briodol.

5. Mae’r gyllideb a argymhellir yn gwneud mwy na chwrdd â chostau chwyddiant. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy’n disgyn ar wasanaethau (oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau, disgyblion, a.y.b.) hefyd yn cael eu cyfarch trwy wneud penderfyniadau cyllidebol cydwybodol a rhesymol (gweler y gofynion gwario ychwanegol, gan gynnwys ‘demograffi’, yn rhan 3 o’r adroddiad).

6. Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw’n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau’n parhau. Mae’r symiau a welir o dan y pennawd “pwysau ar wasanaethau” yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol (£2.8m) o’r cyfanswm bidiau refeniw parhaol (£3.6m) yn mynd i’r maes gofal cymdeithasol (yn cynnwys £1.6m ar gyfer lleoliadau plant mewn gofal a £514k ar gyfer oedolion ifanc ag anableddau dysgu), a bod mwyafrif y gweddill (£495k) ohono’n mynd i’r maes ysgolion (yn cynnwys prydau ysgol am ddim ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel, cludiant tacsis i ddisgyblion ADY, a cryfhau darpariaeth ADY blynyddoedd cynnar).